**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Fawrth, Chwefror 21ain am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Mark Young (cadeirydd), Alyn Ashworth, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams & Robert Parkes; a Jenny Barlow (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Margaret Bowe & Philip Stevens.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod mis Chwefror 2017.

1. **Datgan Diddordeb Personol.** Dim

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Ionawr 17eg 2017.**

3. **Materion yn codi:** Dim.

4. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

   Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r cais canlynol am ganiatâd cynllunio:

   a) 01/2017/0050
   26 Dalar Wen, Dinbych
   Ail-leoli Llinell uwchben 11kv bresennol.
   b) 01/2017/0039
   5 Stryd y Dyffryn, Dinbych.
   Newidiadau I flaen y siop a newid defnydd y llawr cyntaf, ail a thrydydd i greu uned llety preswyl.
   c) 01/2016/1088
   Tir yn uned 34 Bryn Gwyrdd, Stad ddiwydiannol Colomendy, Dinbych.
   Gosod arwyddion goleuedig.
   d) 01/2016/1087
   Tir yn uned 34 Bryn Gwyrdd, Stad ddiwydiannol Colomendy, Dinbych.
   Codi adeilad defnydd cymysg gyda manwerthu ar y llawr gwaelod a swyddfa ar y llawr cyntaf.
   Fe wnaeth y cynghorwyr cais fod ystyriaeth yn cael ei wneud bod y 2 goeden newydd y mae angen eu plannu yn y lleoliad fod yn goed Eirin Dinbych. Mae cymhorthdal ar gael ar gyfer prynu'r coed hyn gan y grŵp eirin Dinbych.
   e) 01/2016/1018
   2 Teras Stanley, Tan y Gwalia, Dinbych.
   Gosod ffenestri newydd ar y drychiad blaen.
   f) 01/2017/0092
   Tŷ Dewi Sant, Lon Dewi Sant, Dinbych.
   Newidiadau I'r annedd.
   g) 01/2017/0047
   62 Trewen, Dinbych
   Adeiladu estyniad i annedd a chodi adeilad storio.

   Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i ohirio'r cais canlynol ac i gyflwyno i'r cyngor llawn ar Chwefror 27ain 2017.

   h) 01/2016/0374
   Tir wrth Gae Topyn, ar Hen Ffordd Rhuthun, Ffordd Eglwyswen, Dinbych.

Codi 75 annedd, ynghyd â ffyrdd cysylltiedig, mannau agored a gwaith cysylltiedig.

Derbyniwyd e-bost oddi wrth Mrs Eiddwen Watkin, Tanrallt, Brwcws, Dinbych ar ôl yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwn gael ei ddosbarthu. Bydd hyn hefyd yn cael ei drafod yn y cyfarfod cyngor llawn nos Llun.

**5. Materion Cynllunio eraill - Dim**

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.10 o'r gloch.

Arwyddwyd:…………………………………………………(cadeirydd)

Dyddiad:…………………………………